Y PENTECOST

ACTAU 2:1-21; SALM 104:24-34, 35B;
RHUFEINIAID 8:22-27; IOAN 15:26-27; 16:4B-15

● **Gweddi agoriadol**

Dduw cariadus,
bydd yn ganolbwynt ein bywydau
wrth i ni gyfarfod yn dy enw.

Iesu gwerthfawr,
bydd y gonglfaen yr adeiledir
ein bywydau arni gam a cham.

Ysbryd Sanctaidd,
bydd y fflam nad yw'n pylu
nac yn diffodd yn y calonnau hyn.

● **Moliant**

Daeth dy Ysbryd
a ganed dy eglwys,
mewn gwynt a thân
a geiriau grymus.

Daeth dy Ysbryd,
a chwythu ofn i ffwrdd,
ac yn ei le
gwneud calonnau gwan yn gryfach.

Daeth dy Ysbryd
nôl addewid dy air,
gyda phroffwydoliaeth,
gweledigaethau a rhyfeddodau.

Daeth dy Ysbryd
ac mae yma heddiw,
i borthi calonnau
y rhai sy'n newynu.

● **Cyffes**
Ceisiwn dy faddeuant
pan anghofiwn
y grym sy'n gorffwys ynom
ac ymddiried yn hytrach
mewn nerth dynol.

Atgoffa ni o'r Pentecost,
pan newidiaist mor amlwg
eneidiau ofnus,
trwy dy Ysbryd,
yn bobl nerthol.

Adnewydda'r calonnau hyn,
a aeth yn oer,
â fflamau tân
fel ar y Pentecost,
er mwyn i ni fod
yr eglwys a ddymuni di.

● Diolch

Diolch i ti am rodd
sy'n galluogi ein gweddi,
yn darllen ein calonnau
a'n harwain ar ein ffordd.

Diolch i ti am rodd
sy'n nerthu'r eglwys
a rhoi iddi rym
i lefaru dy air yn hy.

Diolch i ti am rodd
sy'n adeiladu dy gorff
a'i wneud
yn fendith i eraill.

Diolch i ti am rodd
dy Ysbryd Glân,
dy bresenoldeb
yn y calonnau hyn a'r byd hwn.